CYFRES C5

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Ruth 1

ADNOD ALLWEDDOL
Ruth 1: 16 a 17

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 1 Ruth

Mae'r stori hon yn dechrau mewn tref enwog yn y Beibl.

C Defnyddiwch yr wyddor luniau i ddod o hyd i'r enw.

_____ _____ _____ _____ _____ _____ _____ _____

4

Yn y dref hon, trigai Elimelech, ei wraig Naomi a'u dau fab, Mahlon a Chilion. Daeth cyfnod o newyn enbyd, a phenderfynodd Elimelech fynd â'i wraig a'i feibion i wlad arall o'r enw Moab.

C Ar y mynegbost, ysgrifennwch enw'r wlad yr aethant iddi.



Yn fuan wedi iddynt gyrraedd Moab, bu farw Elimelech, druan. Tyfodd y bechgyn yn ddynion a phenderfynodd y ddau briodi gwraig. Priododd Mahlon ferch o'r enw Ruth, a phriododd Chilion ferch o'r enw Orpa.

2

C **Llanwch y bylchau gyda'r enwau cywir:-**

2

Mahlon a __ __ ___ **Chilion a** __ __ __ __

Merched o wlad baganaidd Moab oedd y ddwy. Yn ôl Cyfraith Dduw, doedd dim hawl gan feibion Israel briodi estroniaid fel rhain. Yn ddiweddarach, bu farw Mahlon a Chilion. Dim ond Naomi a'i dwy ferch-yng-nghyfraith oedd ar ôl bellach.

C **Ysgrifennwch enwau'r rhai a fu farw ar y cerrig beddau.**



6

Yna, clywodd Naomi newyddion da! Roedd y newyn ar ben! Er ei bod wedi byw ym Moab ers dros ddeng mlynedd, roedd hi'n awyddus i ddychwelyd i Fethlehem. Dechreuodd ar ei thaith yng nghwmni Orpa a Ruth. Ceisiodd Naomi eu perswadio i aros ym Moab. O'r diwedd, ufuddhaodd Orpa i erfyniadau Naomi ac aeth yn ei hôl at ei phobl ei hun ym Moab. Roedd Ruth, er hynny, yn benderfynol o fynd gyda Naomi. Doedd dim allai newid ei meddwl. Dywedodd wrth Naomi,

"Ble bynnag yr ei di, fe af finnau;

a'th Dduw di fy Nuw innau."

4

Lliwiwch y geiriau.

2

O'r diwedd, cyrhaeddodd y ddwy dref Bethlehem.

C **Pwy ddaeth i Fethlehem?** **N** __ __ __ __ **a** **R** __ ___

Wyddai Ruth ddim am y cynllun rhyfeddol oedd gan Dduw ar gyfer ei bywyd! Un diwrnod, fe fyddai hi'n berson pwysig iawn. Drwy ymddiried yn yr unig wir a bywiol Dduw, roedd hi wedi cymryd y cam cyntaf tuag at gyflawni cynllun Duw. Gallai ddibynnu arno Ef i ddangos iddi'r cam nesaf – pan fyddai'r amser hwnnw wedi dod.

Enw _____

DARLLENWCH
Ruth 2, 3 a 4

ADNOD ALLWEDDOL
Ruth 4: 13

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 2 Ruth a Boas

Adeg y cynhaeaf oedd hi pan gyrhaeddodd Naomi a Ruth ym Methlehem. Roedd Ruth yn awyddus i gael gwaith, felly aeth i'r caeau, a chafodd ganiatâd i loffa (casglu) unrhyw dywysennau ŷd roedd y medelwyr wedi gadael ar eu hôl. Gweithiai'n galed drwy'r dydd – heb seibiant, bron. Erbyn nos, roedd ganddi sach o ŷd i fynd adref i'w mam-yng-nghyfraith.

C Llanwch y llythrennau sydd ar goll.

Pa adeg o'r flwyddyn oedd hi pan ddaeth Naomi a Ruth i Fethlehem?

A __ __ g y C __ __ __ __ __ __ f

Beth oedd wedi bod yn tyfu yn y cae lle'r oedd Ruth yn gweithio?

__ __

4

Dyn o'r enw Boas oedd perchennog y cae. Bu Boas yn garedig iawn wrth Ruth. Roedd e'n ei helpu i gasglu ychwaneg o ŷd. Dywedodd wrthi hefyd am helpu ei hun, amser cinio, i unrhyw fwyd a diod roedd y medelwyr wedi dod gyda hwy.

C Ysgrifennwch CYWIR neu ANGHYWIR ar ôl pob un o'r canlynol:-

1. Boas oedd perchennog y cae lle bu Ruth yn gweithio. .....
2. Anfonodd hi i ffwrdd am ei bod yn wraig estron. .....
3. Bu'n gyfeillgar tuag ati, ac fe'i helpodd. .....

6

Dyn cyfoethog oedd Boas ac roedd yn berchen ar lawer o dir o amgylch Bethlehem, tra mai gweddw ifanc, dlawd o wlad Moab bell oedd Ruth. Eto i gyd, tyfodd y cyfeillgarwch rhwng y ddau a chyn hir roedden nhw'n briod!

Roedd Ruth yn hapus unwaith eto, wrth i gynllun Duw ar gyfer ei bywyd symud ymlaen un cam arall.

"Felly, cymerodd Boas Ruth yn wraig iddo."

Lliwiwch y geiriau.

Mae gan Dduw gynllun ar gyfer pob un ohonom ni! Dylem gyflwyno ein bywyd i'r Arglwydd Iesu, ac wedyn gwneud ein gorau bob dydd i'w blesio Ef. Pan fyddwn yn gwneud hynny, yna bydd Ef yn gweithio allan Ei gynllun ar ein cyfer, gam wrth gam. Ym mhen amser, ganwyd bachgen bach o'r enw Obed i Boas a Ruth. Roedd pawb yn llawen, ond doedd neb hapusach na Naomi am ei bod yn gofalu amdano. Tyfodd Obed yn ddyn, ac ef, flynyddoedd yn ddiweddarach, ddaeth yn dad-cu neu'n daid i frenin enwocaf Israel – Dafydd! Ruth, y wraig 'estron' o wlad Moab, felly, oedd hen fam-gu neu hen nain y Brenin Dafydd. Dyna gynllun rhyfeddol oedd hwn gan Dduw ar gyfer ei bwyd!

C **Gosodwch y geiriau yn y mannau cywir:-**

Ruth **Dafydd** **Obed**

1. Ganwyd bachgen o'r enw __ __ __ __ i Boas a Ruth.

2. Pan oedd Obed yn hen ŵr, ef oedd tad-cu/taid __ __ __ __ ____ .

3. __ __ _____ oedd hen fam-gu/hen nain Dafydd.

Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel 1: 1-20

ADNOD
ALLWEDDOL
Luc11: 9

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 3 Hanna yn gweddïo ar Dduw

Weithiau, yn nyddiau'r Beibl, byddai gan ambell ddyn ddwy wraig. Nid dyma gynllun Duw ac roedd hyn yn aml yn arwain at gweryla a thristwch. Roedd gan Elcana ddwy wraig. Hanna oedd enw un a Peninna, y llall. Byddai Peninna'n aml yn chwerthin am ben Hanna oherwydd doedd ganddi ddim plant, tra'r oedd Peninna yn fam i nifer o blant.

C Lliwiwch yr hanner cylch sydd wrth ymyl yr ateb cywir.

Cynllun Duw yw y dylai dyn gael – un wraig ◐ mwy nag un wraig.

Roedd gan Elcana – ddwy wraig ◐ un wraig.

Chwarddai Peninna am ben Hanna oherwydd bod ganddi – blant ◐ ddim plant.

6

Bob blwyddyn byddai Elcana a'i deulu yn mynd i Seilo, i addoli'r Arglwydd. Roedd adeilad arbennig yn Seilo lle byddai Eli a'i feibion yn gwasanaethu Duw ac yn cyflwyno aberthau Iddo. Tŷ'r Arglwydd oedd yr enw ar y lle hwn. Yn ystod un ymweliad, roedd Hanna'n drist iawn oherwydd bod Peninna wedi dweud pethau cas wrthi. Ar ôl bwyta pryd o fwyd gyda'i theulu, penderfynodd Hanna fynd i weddïo ar Dduw.

C Gosodwch y geiriau cywir ar ddiwedd y brawddegau hyn.

weddïo ar Dduw. **gwasanaethu Duw.** **i addoli Duw.**

1. Aeth Elcana i Seilo _____ ___ _____ .
2. Roedd Eli a'i feibion yn _____ _____ .
3. Penderfynodd Hanna _____ ___ _____ .

3

Wrth i Hanna weddïo, eisteddai Eli, yr offeiriad, wrth y drws yn ei gwylio. Roedd hi'n crïo wrth iddi ddweud ei phroblem wrth yr Arglwydd. Gofynnodd Hanna i Dduw roi iddi fachgen bach. Addawodd y byddai'r bachgen hwnnw yn gwasanaethu'r Arglwydd bob amser. Er bod gwefusau Hanna'n symud, ni fedrai Eli glywed sŵn geiriau. Credai ei bod hi'n feddw! Roedd hi'n siarad â Duw yn ei chalon!

C Atebwch y cwestiynau.

1. Am beth y gofynnodd Hanna i Dduw?

_____ .

2. Beth oedd ei haddewid i Dduw?

_____ .

3. Beth oedd yn bod ar Hanna yn ôl Eli?

_____.

___ ___ ___ ___ ___ ___

Dywedodd Hanna wrth Eli nad oedd wedi meddwi, ond ei bod yn drist ac yn gofidio'n arw. Esboniodd sut y bu hi'n gweddïo ar yr Arglwydd. Atebodd Eli,"Dos mewn heddwch a rhodded Duw iti yr hyn a geisiaist Ganddo". Beth amser yn ddiweddarach, ganwyd bachgen bach i Hanna.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob llun i ddarganfod enw mab Hanna.

Dyna brofiad rhyfeddol gafodd Hanna - gweld Duw yn ateb ei gweddi! Mae Duw am i ni siarad ag Ef mewn gweddi. Mae'n bwysig iawn ein bod yn treulio amser, bob dydd, yn gweddïo ar Dduw. Byddai'r Arglwydd Iesu'n treulio llawer o amser yn gweddïo ac fe soniodd gryn dipyn wrth Ei ffrindiau am weddi. Dywedodd wrthynt un tro:

"**Gofynnwch,**
ac fe roddir i chwi;
ceisiwch, ac fe gewch."

Lliwiwch y geiriau.

Un peth pwysig dros ben y dylem ofyn i'r Arglwydd Iesu amdano, yw Iddo faddau ein pechodau a dod i mewn i'n bywydau fel ein Harglwydd a'n Gwaredwr. Ydych chi wedi gwneud hynny?

6

3

2

Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel
1: 21 i 3: 21

ADNOD ALLWEDDOL
1 Samuel 3: 9

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 4 Samuel yn clywed Duw'n galw



Pan oedd Samuel yn ifanc iawn, aeth ei fam ag ef i Dŷ'r Arglwydd yn Seilo i gwrdd ag Eli, yr offeiriad. Dywedodd Hanna wrth Eli iddi fod yno o'r blaen ac atgoffodd ef am ei gweddi i Dduw. Wedi i Hanna ddiolch i Dduw am ateb ei gweddïau, cadwodd ei haddewid – gadawodd Samuel gydag Eli, er mwyn i'r bachgen wasanaethu Duw! Ddylen ni fyth anghofio diolch i Dduw pan fydd Ef yn ateb ein gweddïau.

GRID GEIRIAU

Llanwch y llythrennau sydd ar goll ar y Grid Geiriau drwy ateb y cwestiynau.

I LAWR.

1. Beth ddylen ni fyth anghofio'i wneud?

__ __ __ __ ___ i Dduw.

2. Pwy oedd y bachgen bach oedd yn gwasanaethu Duw?



AR DRAWS.

2. Ble'r oedd Tŷ'r Arglwydd?

3. Pwy fu'n gweddïo ar Dduw?

4. Pwy oedd yr offeiriad?

Roedd Samuel yn mwynhau ei waith yn Nhŷ'r Arglwydd. Câi ddysgu am Dduw drwy'r amser. Daeth Samuel i'w garu Ef hefyd. Bob blwyddyn, byddai ei fam yn dod â chot yn anrheg iddo pan fyddai hi'n ymweld â Seilo. Roedd pawb yn hoff o Samuel ac roedd y cyfan a wnâi yn plesio'r Arglwydd.

C Atebwch Gwir neu Anwir:-

Roedd Samuel yn caru Duw. .....
Roedd Samuel yn helpu Eli. .....
Byddai rhieni Samuel yn dod i'w weld bob mis. .....
Câi Samuel got bob tro y byddent yn dod i Seilo. .....

8

Un noson, tra'r oedd Eli a Samuel yn cysgu, galwodd yr Arglwydd enw Samuel. Cododd Samuel ar unwaith a rhedodd at Eli. "Dyma fi", meddai, oherwydd credai fod yr hen ŵr wedi galw amdano. Dywedodd Eli wrtho am fynd yn ôl i'w wely, gan nad oedd wedi galw ei enw. Galwodd yr Arglwydd ar Samuel ddwy waith eto, ac fe godai'r bachgen yn gyflym a mynd at Eli bob tro. Ar ôl y trydydd tro, sylweddolodd Eli mai'r Arglwydd oedd yn galw Samuel. Felly, dywedodd Eli wrth Samuel, os câi ei alw eto, roedd i ddweud, "Llefara, Arglwydd, canys y mae dy was yn gwrando". Pan alwodd Duw ei enw am y pedwerydd tro, roedd Samuel yn barod ac atebodd yr Arglwydd.

2

C Rhowch gylch o gwmpas y rhif cywir:

1. Aeth Samuel at Eli. 1 2 3 4 tro.

2. Galwodd Duw enw Samuel. 4 3 2 1 tro.

Dywed y Beibl wrthym nad oedd Samuel yn adnabod yr Arglwydd pan alwodd Ef arno. Gwyddai Samuel 'Amdano', ond doedd y bachgen erioed wedi adnabod yr Arglwydd yn bersonol. Efallai bod hyn yn wir amdanom ni. Rydym yn gwybod popeth 'am' yr Arglwydd Iesu, ond ydych chi'n Ei adnabod fel eich Arglwydd a'ch Gwaredwr personol? Wnewch chi ateb Ei alwad, y funud hon, i ymddiried Ynddo? Y noson honno, rhoddodd Duw neges bwysig i Samuel, ac adroddodd y bachgen y neges honno wrth Eli fore trannoeth. Wrth i Samuel dyfu'n ddyn, rhoddodd Duw fwy o negeseuon iddo ar gyfer pobl Israel. Gwyddai pawb mai proffwyd yr Arglwydd oedd Samuel a bod Duw gydag ef.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 C5

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH % 01766 819120